

YR YMGYRCH TRUTH ABOUT ZANE



Y ddelwedd a ddarparwyd gan deulu Zane

Ar 8 Chwefror 2014, bu farw bachgen saith mlwydd oed o'r enw Zane Gbangbola ar ôl i lifddwr o safle tirlenwi halogedig lifo i islawr ei gartref yn Chertsey, Surrey.

Yn yr oriau mân, aeth Zane a'i rieni, Nicole a Kye, yn wael iawn ar ôl i'r llifddwr gludo nwy hydrogen cyanid marwol i dŷ'r teulu. Dioddefodd Zane ataliad y galon. Dioddefodd Kye ataliad y galon hefyd, ac fe'i gadawyd yn baraplegig oherwydd gwenwyn nwy hydrogen cyanid.

Er gwaethaf y dystiolaeth, mewn cwest a gynhaliwyd ddwy flynedd yn ddiweddarach dyfarnodd y crwner nad y llifddwr halogedig a achosodd farwolaeth Zane; yn hytrach, barnwyd mai gwenwyn carbon monocsid o bwmp petrol a oedd ar fai.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
truthaboutzane.com



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Ar y noson y bu farw Zane, darganfu tîm Deunyddiau Peryglus Gwasanaeth Tân ac Achub Surrey lefelau uchel o nwy hydrogen cyanid yng nghartref Zane. Datganwyd digwyddiad mawr a gwagiwyd yr ardal. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw garbon monocsid yng nghartref Zane.

Yn ystod gwrandawiadau a gynhaliwyd cyn y cwest, dyfarnodd y crwner na fyddai tystiolaeth hollbwysig yn cael ei chyflwyno, yn cynnwys diagnosis Kye (sef gwenwyn nwy hydrogen cyanid), tystiolaeth arbenigol yn cadarnhau bod y pwmp petrol yn ddiffygiol, a gwaith ymchwil gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos bod y safle tirlenwi yn esgor ar risg annerbyniol y gallai nwyon symud oddi ar y safle.

Gwrthodwyd rhoi cymorth cyfreithiol i Kye a Nicole a bu'n rhaid iddynt godi arian ar gyfer cwest eu plentyn.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

“Mae a wnelo achos Zane â'r croestoriadedd rhwng hawliau dynol, cyfiawnder hinsawdd ac ymddygiad gwleidyddol – hynny yw, lle mae newid hinsawdd yn dod wyneb yn wyneb â phŵer a gorthrwm... Yn y bôn, bu farw Zane a dywedodd yr awdurdodau gelwyddau... Safwn ger eich bron fel rhieni mewn galar, y gwrthodwyd inni bob hawl i wirionedd a chyfiawnder, hyd yn oed yr hawl i alaru mewn heddwch”

Kye and Nicole Gbangbola, tad Zane